# COVID-19 Update: 12th June

Welcome to the last COVID-19 update of the week from Cardiff Council, covering: 11 things that will help avoid problems with seagulls and pests; the Early Years Inclusion Team switch to social media, phone and email to continue giving support; messages of thanks for our Recycling Centre staff; and vote Katy, a member of our Digital Support Team, in the running to become a UK Digital Leader.

## How to avoid issues with seagulls and pests

Cardiff has a natural seagull population that is attracted to food sources. To help avoid issues, please follow our advice with your food waste:

1. Place all unwanted uncooked and cooked food waste in the kitchen caddy
2. Keep the outside of kitchen caddy clean from drips and spills
3. Use the free council issues liners – order more here: https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Rubbish-and-recycling/Food-and-recycling-bags/Pages/default.aspx
4. Make sure the lid is kept closed
5. Tie the liner and place it in the kerbside caddy
6. If you have too much food you can request a further kerbside caddy order more here: https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Rubbish-and-recycling/Food-and-recycling-bags/Pages/default.aspx
7. Mark your caddy with your house number or name so you are able to identify your food caddy following collection
8. Rinse food packaging such as bottles, tins, jars and food trays, before placing in the green recycling bags
9. Put out your green recycling bags and food waste kerbside caddy out for collection every week
10. Only use Cardiff Council food caddies and green recycling bag to ensure your waste is collected
11. Regularly check the outside of your property to make sure any broken vents or drain pipes are repaired. Animals such as rats can be attracted to houses if they provide a warm safe place for them to nest

The food waste collection service and the caddy design has been developed to stop the problems with pests attacking food sources. Check your collection dates here: https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Rubbish-and-recycling/When-are-my-bins-collected/Pages/default.aspx

Download the Cardiff Gov App to set up reminders and never miss a collection date: https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/cardiff-gov-app/Pages/default.aspx

## Early Years Inclusion Team urge people to ‘pop in’ to their One Group on social media

Under normal circumstances the Early Years Inclusion Team would be happily meeting parents/carers and their children at our weekly 'One Group' (parent support groups for children birth to five who may have additional learning needs).

During this strange time, even though they can't meet face to face, the team are still keeping in contact and providing as much support as they can via phone, email and social media, responding to queries as normal.

Early Years Inclusion are sharing information through their Facebook and Twitter pages including updates, health resources, fun activities, Makaton songs and generally trying to keep everyone informed and uplifted.

So, while it's not possible for parents to 'pop in' to The One Group at the moment, the team are inviting people to stay in touch with them through social media:

Facebook: https://www.facebook.com/Grwp1Group/
Twitter: https://twitter.com/grwp1group

**Praise for our teams as Recycling Centres re-open**



Our Recycling Centres in Lamby Way and Bessemer Close have been re-open for a couple of weeks with restrictions in place so that residents and colleagues can stick to social distancing rules to help prevent the spread of Coronavirus.

We've received many messages of thanks to our hardworking teams on site, making sure the new changes are implemented as simply as possible:

- Just visited the rubbish tip. That's the most excitement I've had in almost 80 days😄 Credit where credit due @cardiffcouncil, Lamby Way is well organised!
- @cardiffcouncil In my experience works really well and the team were really helpful

- @cardiffcouncil It works really well as should be continued form now on in my view
- @cardiffcouncil Great organisation and courteous, helpful staff. Keep up the good work and stay safe.
- @cardiffcouncil And a big thank you to staff. My husband is full of praise.

Thank you to all our colleagues working at our recycling sites at this time.
An online booking system has been set up and anyone that needs to visit a recycling centre will have to make an appointment.

You can make a recycling centre booking here:
https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Your-Council/Strategies-plans-and-policies/Emergency-Planning-and-Resilience/coronavirus-information/waste-service-changes/recycling-centres/Pages/default.aspx

**UK Digital Leader – Vote Katy**

Vote for our digital whizz Katie to be a UK Digital Leader! Digital officer in Adult Learning Cardiff, Katie Rappell, has been shortlisted in the top 100 digital champions in this year's Digital Leaders scheme.

The nationwide programme promotes effective, long-term digital transformation across government, industry and charities. Katie has been recognised in the Young Digital Leader category.

You can vote for Katie and find out about her work here:
https://digileaders100.com/young-digital-leader?utm_source=Facebook&utm_medium=social&utm_campaign=SocialSignIn&utm_content=COMMUNITIES%2C+HOUSING+%26+CUSTOMER+SERVICES

To get in contact with our Digital Support Team who can help with a range of issues like using the internet and social media, online banking, creating an email address, online shopping, paying bills and more, use this form here:
https://form.jotform.com/201123417217038?utm_source=Facebook&utm_medium=social&utm_campaign=SocialSignIn&utm_content=COMMUNITIES%2C+HOUSING+%26+CUSTOMER+SERVICES

Or get in touch on Twitter or Facebook @digisuppcardiff

## Diweddariad COVID-19: 12 Mehefin

Croeso i ddiweddariad #COVID19 olaf yr wythnos gan Gyngor #Caerdydd, sy'n cynnwys: sut i osgoi problemau gyda gwylanod a phlâu; y tîm cynhwysiant blynyddoedd cynnar yn annog pobl i 'alw mewn' i'w grŵp un drwy'r cyfryngau cymdeithasol; clod i'n timau wrth i'r Canolfannau Ailgylchu ailagor; Arweinwyr Digidol y DU - pleidleisiwch Katy.

**Sut i osgoi problemau gyda gwylanod a phlâu**

Mae gan Gaerdydd boblogaeth naturiol o wylanod sy'n cael eu denu gan ffynonellau bwyd. Er mwyn helpu i osgoi'r problemau hyn, dilynwch eich cyngor gyda'ch gwastraff bwyd:

1. Rhowch unrhyw fwyd gwastraff (boed wedi'i goginio a'i beidio) yn y cadi cegin
2. Cadwch y tu allan i'r cadi cegin yn lân ac yn rhydd o unrhyw ddiferion
3. Defnyddiwch fagiau bin am ddim y cyngor – cliciwch ar y ddolen hon i archebu rhagor:
https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Sbwriel-ac-ailgylchu/Archebwch-bagiau-bwyd-ac-ailgylchu/Pages/default.aspx
4. Cadwch y caead ar gau
5. Clymwch y bag a'i roi yn y cadi ymyl y ffordd
6. Os oes gennych ormod o fwyd gallwch ofyn am gadi ymyl y ffordd arall drwy archebu yma:
https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Sbwriel-ac-ailgylchu/Archebwch-bagiau-bwyd-ac-ailgylchu/Pages/default.aspx
7. Rhowch rif neu enw'ch tŷ ar y cadi fel y gallwch nodi'ch un chi ar ôl i'r gwastraff bwyd gael ei gasglu
8. Rinsiwch eitemau fel poteli, tiniau, jariau a bocsys bwyd cyn eu rhoi yn y bagiau ailgylchu gwyrdd
9. Ewch a'ch bagiau ailgylchu gwyrdd a'ch cadi ymyl y ffordd ar gyfer bwyd gwastraff allan i'w gasglu bob wythnos
10. Defnyddiwch cadis bwyd a bagiau ailgylchu gwyrdd Cyngor Caerdydd yn unig er mwyn sicrhau y caiff eich gwastraff ei gasglu
11. Gwiriwch yn rheolaidd y tu allan i'ch eiddo er mwyn sicrhau bod unrhyw fentiau neu bibelli draen yn cael eu trwsio. Mae anifeiliaid fel llygod mawr yn cael eu denu i gartrefi os oes yna le diogel a chynnes iddyn nhw nythu

Mae'r gwasanaeth casglu gwastraff bwyd a dyluniad y cadi wedi cael eu datblygu'n arbennig i stopio plâu rhag ymosod ar ffynonellau bwyd. Mae'r dyddiadau casglu yma:
https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Sbwriel-ac-ailgylchu/Pryd-gaiff-fy-miniau-eu-casglu/Pages/default.aspx

Lawrlwythwch Ap Caerdydd Gov i'ch atgoffa o'r dyddiadau casglu:
https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/app-caerdydd-gov/Pages/default.aspx

**Y Tîm Cynhwysiant Blynyddoedd Cynnar yn annog pobl i 'alw mewn' i'w Grŵp Un drwy'r cyfryngau cymdeithasol**

O dan amgylchiadau arferol, byddai'r Tîm Cynhwysiant Blynyddoedd Cynnar yn hapus i gyfarfod â rhieni/gofalwyr a'u plant yn ein 'Grŵp Un' wythnosol (grwpiau cymorth i rieni plant 0-5 oed a allai fod ag anghenion dysgu ychwanegol).

Yn ystod yr amser rhyfedd hwn, er nad ydyn nhw'n gallu cwrdd wyneb yn wyneb, mae'r tîm yn dal i gadw mewn cysylltiad a rhoi cymaint o gymorth ag y gallan nhw dros y ffôn, e-bost a'r cyfryngau cymdeithasol, gan ymateb i ymholiadau fel arfer.

Mae Cynhwysiant Blynyddoedd Cynnar yn rhannu gwybodaeth drwy eu tudalennau Facebook a Twitter gan gynnwys diweddariadau, adnoddau iechyd, gweithgareddau hwyl a chaneuon Makaton ac yn gyffredinol yn ceisio sicrhau bod pawb mewn hwyliau da ac yn cael gwybodaeth.

Felly, er nad yw'n bosibl i rieni 'alw mewn' i Grŵp Un ar hyn o bryd, mae'r tîm yn gwahodd pobl i gadw mewn cysylltiad â nhw drwy'r cyfryngau cymdeithasol:

Facebook: https://www.facebook.com/Grwp1Group/
Twitter: https://twitter.com/grwp1group

**Clod i'n timau wrth i'r Canolfannau Ailgylchu ailagor**



Mae ein Canolfannau Ailgylchu yn Ffordd Lamby a Bessemer Close wedi ail agor ers rhyw bythefnos, gyda chyfyngiadau er mwyn i breswylwyr a chydweithwyr allu cadw at y rheolau ymbellhau cymdeithasol i helpu i atal lledaenu'r Coronafeirws.

Rydym wedi derbyn llawer o negeseuon o ddiolch i'n timau gweithgar ar y safle, sy'n sicrhau bod y newidiadau newydd yn cael eu gweithredu mor syml â phosibl:

- Newydd fod yn y tip sbwriel. Dyna'r cyffro mwyaf ges i ers bron i 80 diwrnod bellach😄 Pob clod i @cyngorcaerdydd, mae canolfan Ffordd Lamby wedi ei threfnu'n dda!
- @cyngorcaerdydd Yn fy mhrofiad i, mae'n gweithio'n dda iawn ac roedd y tîm yn gymwynasgar iawn.
- @cyngorcaerdydd Mae'n gweithio'n dda iawn a dylai hyn barhau yn fy marn i.
- @cyngorcaerdydd Trefniant gwych a staff cwrtais a chymwynasgar. Daliwch ati gyda'r gwaith da, a chadwch yn ddiogel.
- @cyngorcaerdydd A diolch mawr i'r staff. Mae fy ngŵr yn eu canmol nhw i'r cymylau.

Diolch i’n holl gydweithwyr sy’n gweithio yn ein canolfannau ailgylchu yn y cyfnod hwn.

Mae system bwcio ar-lein wedi ei chreu a bydd yn rhaid i unrhyw un sydd eisiau ymweld â chanolfan ailgylchu wneud apwyntiad. Gallwch drefnu dod i ganolfan ailgylchu yma: https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Eich-Cyngor/Strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/Cynllunio-at-Argyfwng-a-Gwydnwch/gwybodaeth-ynghylch-coronafeirws/newidiadau-i-wasanaethau-gwastraff/canolfannau-ailgylchu/Pages/default.aspx

**Arweinwyr Digidol y DU - Pleidleisiwch Katy**

Pleidleisiwch dros ein hathrylith ddigidol Katie i fod yn un o Arweinwyr Digidol y DU.

Mae Katie Rappell, swyddog digidol gyda Thîm Addysg Oedolion Caerdydd, wedi cyrraedd rhestr fer y 100 hyrwyddwr digidol gorau yng nghynllun Arweinwyr Digidol eleni.

Mae’r rhaglen genedlaethol yn hyrwyddo trawsnewid digidol effeithiol a hirdymor trwy’r llywodraeth, byd diwydiant ac elusennau. Mae Katie wedi cael ei chydnabod yng nghategori Arweinwyr Digidol Ifainc.

Gallwch bleidleisio dros Katie a chael gwybod am ei gwaith yma: https://digileaders100.com/young-digital-leader?utm_source=Facebook&utm_medium=social&utm_campaign=SocialSignIn&utm_content=COMMUNITIES%2C+HOUSING+%26+CUSTOMER+SERVICES

I gysylltu â'n Tîm Cymorth Digidol a all helpu gydag amrywiaeth o faterion megis defnyddio'r rhyngrwyd a chyfryngau cymdeithasol, bancio ar-lein, creu cyfeiriad e-bost, siopa ar-lein, talu biliau a mwy, defnyddiwch y ffurflen yn: https://form.jotform.com/201123417217038?utm_source=Facebook&utm_medium=social&utm_campaign=SocialSignIn&utm_content=COMMUNITIES%2C+HOUSING+%26+CUSTOMER+SERVICES

Neu cysylltwch ar Twitter neu Facebook @digisuppcardiff